



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol y Santes Ffraid  
Plas Yn Green  
Ffordd yr Wyddgrug  
Dinbych  
Sir Ddinbych  
LL16 4BH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

® **Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Santes Ffraid yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed. Mae niferoedd disgyblion wedi cynyddu ryw 4% ers i'r ysgol gael ei harolygu yn 2010. Ar hyn o bryd, mae 510 o ddisgyblion ar y gofrestr, gydag 83 yn y chweched dosbarth, o gymharu â 491 adeg yr arolygiad diwethaf pan oedd 58 yn y chweched dosbarth. Mae 149 o ddisgyblion yn yr adran gynradd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Dinbych mewn lleoliad gwledig deniadol iawn. Mae'n gwasanaethu dalgylch mawr yn ymestyn o Landudno yn y Gorllewin i Ororau Cymru yn y Dwyrain, ac ymhellach na Rhuthun yn y De.

Mae tua 6.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol mewn ysgolion uwchradd, sef 17.4%, ac ar gyfer ysgolion cynradd, sef 20.1%. Mae rhyw 7.7% o blant yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron yr holl blant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith, ac ychydig iawn sy'n rhugl yn Gymraeg. Caiff 23 o ddisgyblion gymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn gyffredinol, y gymhareb merched i fechgyn yw 60:40 ond yng nghyfnod allweddol 4 mae cryn dipyn yn fwy o ferched na bechgyn.

Er bod disgyblion yn yr adran gynradd o allu cymysg, mae tua hanner y disgyblion yn yr adran uwchradd yn cael eu dethol drwy arholiad mynediad. Tua 27% yw'r ganran o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ac mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol. Penodwyd y pennaeth presennol yn bennaeth dros dro yn 2013, a gwnaed y swydd yn barhaol ym Medi 2014. Penodwyd y dirprwy bennaeth yn ddirprwy dros dro ym Medi 2013, a chafodd y swydd ei gwneud yn barhaol ym Medi 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Santes Ffraid yn 2015-2016 yw £4,332.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol y Santes Ffraid yn ddigonol oherwydd:

- Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn gadarn iawn dros y tair blynedd diwethaf
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â'u hoedran a'u gallu
- Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac aeddfed, gan gyfiawnhau eu hatebion yn llwyddiannus
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn dda o oedran cynnar
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa eang, gan gynnwys terminoleg sy'n berthnasol i'r pwnc yn eu gwaith ysgrifenedig
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhif priodol y maent yn eu defnyddio i ddatrys problemau mewn cyd-destunau mwyfwy cymhleth
- Mae ansawdd yr addysgu mewn llawer o wersi yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cadarn
- Mae bron yr holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gofal a chonsyrn am ei gilydd
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn dangos parch i'w hathrawon a'u cyfoedion
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol

Fodd bynnag:

- Mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod yn is na'r disgwyl o ystyried cyd-destun yr ysgol
- Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn 2015, fe wnaeth perfformiad ddirywio yn yr holl bynciau gan osod yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg
- Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd disgwylidig o gyfnodau allweddol blaenorol mewn mwyafrif o ddangosyddion allweddol
- Mae tuedd ddirywiol ym mhresenoldeb disgyblion yn y cyfnod cynradd
- Nid yw arweinwyr wedi monitro cywirdeb asesiadau a ddefnyddir i olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr
- Nid yw'r gydlyniaeth wrth gydlynu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol yn ddigon strategol i sicrhau parhad a dilyniant drwy'r cyfnodau allweddol

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion fel dinasyddion cyfrifol a chyflawn y dyfodol
- Mae uwch arweinwyr wedi gweithio gyda'i gilydd yn gydwobodol ers eu penodi i sefydlu ffyrdd i wella'r ysgol a darparu addysg effeithiol ar gyfer disgyblion yr ysgol
- Mae arweinwyr canol yn datblygu'u rôl mewn sicrhau ansawdd ac yn dechrau deall arwyddocâd data perfformiad
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau addas gyda chysylltiadau priodol ag adroddiad arfarnu'r ysgol
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys camau gweithredu addas i sicrhau gwelliant mewn llawer o feysydd

Fodd bynnag:

- Nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio gwelliant gan nad yw'r ysgol yn nodi cryfderau a gwendidau yn ei darpariaeth mewn modd ffurfiol
- Nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ychydig o feysydd pwysig i'w gwella
- Nid yw arweinwyr wedi ystyried cyd-destun a chyfansoddiad yr ysgol i wneud asesiadau hunanfeirniadol addas o'u perfformiad dros gyfnod
- Mae rôl arweinwyr canol yn parhau heb ei datblygu'n ddigonol, yn enwedig o ran dadansoddi data a hunanarfarnu
- Mae diffyg gan yr ysgol yn ei chyllideb ar hyn o bryd

## Argymhellion

- A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Gwella cydlyniant datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol
- A3 Sicrhau bod gwybodaeth asesu'n gywir ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion
- A4 Gwella ansawdd arweinyddiaeth i sicrhau atebolrwydd gyda mwy o ffocws ar wella deilliannau disgyblion
- A5 Sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio'r ystod gyfan o dystiolaeth ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
- A6 Gwella presenoldeb disgyblion yn y cyfnod cynradd
- A7 Cael gwared ar y diffyg yn y gyllideb

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion o ran y deiliant disgwylidig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio, ac am y ddwy flynedd diwethaf, mae wedi bod islaw'r canolrif o gymharu â chanlyniadau mewn ysgolion tebyg yn seiliedig ar lefelau cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. O ran y deiliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd yn amrywio, ond mae wedi bod uwchlaw'r canolrif o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Fe wnaeth perfformiad mewn datblygiad mathemategol o ran y deiliant uwch wella yn 2015, ond mae'n parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Er 2012, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 neu'n uwch wedi bod uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth hyd at 2014. Yn 2015, fodd bynnag, mae'r perfformiad wedi dirywio yn yr holl bynciau, gan osod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Ar lefel 5 neu'n uwch, mae perfformiad yn y pynciau hyn wedi bod yn amrywiol, ond mae tuedd ddirywiol mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella'n raddol er 2013.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi bod yn amrywiol ar gyfer llawer o ddangosyddion allweddol er 2013. Yng ngolau natur rannol ddetholus yr ysgol a chyfran uchel y merched ar y gofrestr, mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 mewn Saesneg a mathemateg wedi bod yn is na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn gadarn iawn yn ystod y cyfnod hwn. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd disgwylidig o gyfnodau allweddol blaenorol mewn mwyafrif o ddangosyddion allweddol.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron yr holl ddisgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Ym Mlwyddyn 13, er 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A\*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi bod islaw cyfartaledd Cymru. Dros yr un cyfnod, fodd bynnag, mae cyfran uwch o ddisgyblion wedi ennill 3 gradd A\* neu A o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru. Yn 2015, bu dirywiad yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3, ac mae'r pwyntiau cyfartalog a sgoriwyd gan ddisgyblion yn gyson islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

At ei gilydd, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2014, roedd perfformiad bechgyn o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn yn y teulu. Fodd bynnag, yn 2015, mae'r perfformiad hwn wedi gwella ac mae gerllaw cyfartaledd y teulu ar gyfer

bechgyn. Mae perfformiad merched o ran y dangosydd hwn wedi dirywio'n sylweddol yn 2015, i islaw cyfartaledd y teulu ar ôl bod yn gyson uwch er 2012. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â'u hoedran a'u gallu. Yn y gwersi hyn, mae gafael cadarn ar ddysgu blaenorol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ac maent yn adeiladu'n dda ar hyn. Maent yn gweithio'n bwrpasol mewn grwpiau ac yn gwrando ac yn ymateb i'w gilydd yn effeithiol. Maent yn ymateb yn dda iawn i lefel uchel o her ac yn rhoi esboniadau dilys ar gyfer eu canfyddiadau.

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, ac mae ychydig o ddisgyblion yn rhy araf yn ymroi i weithio. Mae bechgyn yn benodol, yn cynnig ymatebion byr sydd heb eu datblygu'n ddigonol, ac maent yn dibynnu'n fawr ar gymorth athrawon. Mewn ychydig iawn o wersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos diffyg hyder ac maent yn dibynnu gormod ar adnoddau argraffedig. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn aeddfed, gan gyfiawnhau eu hatebion yn llwyddiannus. Mae mwyafrif ohonynt yn siarad yn huawdl. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda. Maent yn esbonio syniadau yn glir ac mae hyn yn eu helpu i ehangu'u gwybodaeth a chryfhau'u dealltwriaeth o'r gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn dda o oedran cynnar. Ar draws y pynciau a'r meysydd dysgu, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn dda i ddeunydd ffynhonnell mewn amrywiaeth eang o ffurfiau ysgrifenedig. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ymchwilio yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa eang, gan gynnwys terminoleg pwnc berthnasol, yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn cynhyrchu darnau o waith estynedig ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Mae safon eu sillafu a'u gramadeg yn briodol ar y cyfan.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhif priodol y maent yn eu defnyddio i ddatrys problemau mewn cyd-destunau fwyfwy cymhleth. Maent yn cymhwyso'u medrau mesur yn dda wrth ddysgu am gymesuredd, onglau a siapiau. Maent yn defnyddio ystod briodol o fedrau ymdrin â data i'w gofnodi, ei ddehongli a'i gyflwyno mewn siartiau perthnasol, diagramau a graffiau sy'n briodol i'r dasg ac i oedran a gallu.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron yr holl ddisgyblion yn cyflawni gradd C neu'n uwch mewn Cymraeg ail iaith mewn TGAU. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cychwyn cadarn i ddysgu Cymraeg, ac mae hyn yn parhau'n briodol trwy gyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, fodd bynnag, mae defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd heblaw am wersi Cymraeg wedi'i gyfyngu i ymadroddion sylfaenol.



**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â'r ychydig ddiwyddiadau o fwlio. Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr adran gynradd a llawer o ddisgyblion yn yr adran uwchradd o'r farn fod yr ysgol yn eu haddysgu sut i fyw bywydau iach. Mae mwyafrif mawr o ddisgyblion yn mynychu gweithgareddau allgyrsiol sy'n gwella eu profiadau bywyd.

Mae presenoldeb yn yr ysgol wedi amrywio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae tuedd pum mlynedd o wella yn yr adran uwchradd, ac mae hyn fwy neu lai'n gyson â deilliannau wedi'u modelu. Mae tuedd ddirywiol yn yr adran gynradd, sydd wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac yn dangos parch i'w hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi yn yr adran uwchradd, mae ychydig iawn o fechgyn hyn yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Mae'r cyngor myfyrwyr yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol ac mae wedi cyfrannu at benderfyniadau'n ymwneud â bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraniad hwn wedi ymestyn i ddylanwadu ar addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae bron yr holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gofal a chonsyrn am ei gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweddïo dros ddisgyblion hyn sy'n sefyll eu harholiadau. Mae disgyblion hyn yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion iau ac yn eu helpu i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion ei disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, caiff dewis cynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ei gynnig i ddisgyblion mewn partneriaeth â Chonsortium Dyffryn Clwyd a Llu Cyfun y Cadetiaid.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd trwy gynnwys y rhain yn ei gynlluniau gwaith. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi. Mae gweithgareddau cyfoethogi, fel y gweithgarwch adrodd storïau 'Roald Dahl Takeover Day', a'r 'Sale Sharks Number Cruncherz', yn gwella dysgu'r disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig ymyrraeth effeithiol ar gyfer disgyblion â medrau gwannach, ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gweithio'n ddigon strategol i sicrhau parhad a dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd drwy'r cyfnodau allweddol.

Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol cerddorol a gweithgareddau yn gysylltiedig â phwnc, ac mae niferoedd da yn eu mynychu. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ddatblygu diddordebau disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Mae

nifer uchel iawn yn mynychu'r rhaglen a gynigir gan Lu Cyfun y Cadetiaid o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 13, ac mae'r ddarpariaeth yn effeithiol iawn o ran cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau corfforol, arwain a gweithio mewn tîm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn yr adran gynradd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn dda. Er Medi 2015, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r holl ddisgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru ei datblygu'n effeithiol drwy ystod o brofiadau, yn cynnwys gwasanaethau, pynciau a gweithgareddau allgyrsiol, fel cyrsiau preswyl yr Urdd i Lanllyn ym Mlwyddyn 6, Caerdydd ym Mlwyddyn 9 ac Eisteddfodau.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad llwyddiannus at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang trwy weithio gydag asiantaethau allanol amrywiol fel 'Wateraid' a CAFOD. Mae'r rhan fwyaf o bynciau, a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, yn cyfrannu'n effeithiol wrth ddatblygu disgyblion fel dinasyddion cyfrifol yn eu cymuned.

### **Addysgu: Digonol**

Mae gwybodaeth bynciol dda gan y rhan fwyaf o athrawon. Maent yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu i gymell disgyblion ac ennyn eu diddordeb mewn dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer gwaith ac ymddygiad, ac maent yn sicrhau bod awyrgylch gweithio cadarnhaol yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u gwersi yn dda. Mae llawer o wersi yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n benodol i bwnc, ac maent yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfnerthu a chymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu ystod o waith sy'n cyfateb i'w hanghenion, diddordebau a galluoedd. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig digon o her i ddisgyblion llai abl.

Mae holi treiddgar a gwirio cynnydd disgyblion mewn modd sensitif mewn llawer o wersi yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u dealltwriaeth yn dda. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn galluogi disgyblion penodol i ganolbwyntio ar y dasg a chyflawni'n addas. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn cynnig atebion i ddisgyblion yn rhy gyflym, heb roi digon o amser nag anogaeth iddynt i ddatrys problemau drostynt eu hunain.

Mae pob aelod o staff yn cynnig modelau iaith da ar gyfer disgyblion yn Saesneg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ymadroddion Cymraeg yn effeithiol yn y dosbarth, yn enwedig yn yr adran gynradd, lle mae athrawon yn annog disgyblion i ymateb yn Gymraeg yn aml. Er hyn, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau Cymraeg llafar mewn gwersi yn uwch i fyny yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth cefnogol a rheolaidd i ddisgyblion. Mae hyn yn aml yn helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth

sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mewn ychydig o bynciau, ceir cryfderau arbennig yn y marcio, lle bydd disgyblion yn aml yn ymateb i awgrymiadau athrawon drwy ateb eu cwestiynau neu wella elfennau o weithgaredd. Fodd bynnag, mae adborth mewn mwyafrif o bynciau yn rhy amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith rhai eraill. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r rhain yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn llwyr sut i gymhwyso meini prawf llwyddo perthnasol.

Mae systemau addas ar waith gan yr ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac mae athrawon yn diweddarau'r systemau hyn yn rheolaidd. Mae uwch arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion yn briodol er mwyn nodi unigolion nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwylidig. Mae'r ysgol wedi gwella'r system adolygu hon dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyn hyn, fodd bynnag, nid oedd arweinwyr yn monitro cywirdeb asesiadau a ddefnyddiwyd i olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser wedi adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac felly ni wnaethant ddarparu'r ymyriadau angenrheidiol i sicrhau gwelliant amserol.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth addas am gynnydd eu plentyn. Ceir targedau ar gyfer y flwyddyn i ddod ym mhob adroddiad, ac mae hyn yn helpu rhieni i ddeall y meysydd y mae angen i'w plant wella ynddynt. Mae cyfleoedd addas i rieni wneud sylwadau ar gynnwys adroddiadau eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol gan yr ysgol ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r trefniadau ar gyfer gofal bugeiliol a'r ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol wedi datblygu ymdeimlad cadarn o gymuned yn yr ysgol. Mae gwaith Llu Cyfun y Cadetiaid a'r Gaplaniaeth yn gryfderau arbennig yn yr ysgol. Cânt effaith fuddiol ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol bywydau disgyblion.

Mae polisi priodol gan yr ysgol ar waith i sicrhau safonau ymddygiad uchel. Fodd bynnag, nid yw ychydig o staff yn cymhwyso'r polisi hwn yn ddigon cyson i ddelio â'r ychydig o ddigwyddiadau o ymddygiad aflonyddgar mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad perthnasol ac amserol sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn ag astudio pellach a chyflogaeth.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol er mwyn diwallu anghenion penodol disgyblion unigol. Ceir cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft, wrth ddatblygu lefelau isel o lythrennedd a rhifedd. Mae'r cymorth hwn yn eu galluogi i wneud cynnydd addas gyda'u dysgu a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a disgyblion yn llawn wrth ddatblygu cynlluniau addysg unigol, ac mae'n adolygu'r rhain yn rheolaidd. Maent yn ddogfennau defnyddiol, ac yn cynnwys targedau addas ac arweiniad ar gyfer athrawon.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol y Santes Ffraid yn ysgol hapus gydag awyrgylch teuluol cadarn ac ethos gofalgar a chynhwysol yn seiliedig ar gymeriad crefyddol. Gwerthoedd yr ysgol yw 'Ysbrydoli a chael eich ysbrydoli trwy Barch, Cariad, Ffydd, Gwirionedd a Rhagoriaeth'. Mae bron pob un o'r staff, disgyblion a rhieni yn rhannu'r gwerthoedd hyn. Cânt eu hatgyfnerthu gan y digwyddiadau sy'n denu niferoedd da a drefnir gan y gaplaniaeth, a chan wasanaethau a gynhelir yng nghapel yr ysgol. Caiff pob disgybl fanteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm ac ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Er ei fod yn hen, mae'r prif adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan, ynghyd â thir yr ysgol. Mae ansawdd yr adnoddau yn addas, er bod adnoddau mewn ychydig o feysydd pwnc, gan gynnwys cerddoriaeth a chwaraeon, mewn cyflwr gwael. Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth o faint digonol ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr, a gwneir defnydd effeithiol o'r adeiladau. Mae arddangosiadau yn llawn gwybodaeth, yn berthnasol ac yn gyfredol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Penodwyd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth i'w rolau gan yr ysgol ym Medi 2013, yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol ymhlith yr uwch dîm arwain. Nid oedd strwythur arwain yr ysgol cyn eu penodiad yn addas i'r diben. Ers eu penodi, maent wedi gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol i sefydlu ffyrdd newydd o wella'r ysgol a darparu addysg effeithiol ar gyfer y disgyblion. Ym Medi 2015, cyflwynwyd haen reoli ganol. Fodd bynnag, datblygiadau diweddar yw'r rhain ac, ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn gweithio'n ddigon strategol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion fel dinasyddion cyfrifol a chyflawn y dyfodol. Mae bron pob un o'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill yn deall ac yn rhannu'r weledigaeth hon.

Mae'r strwythur arwain a ail-fodelwyd yn ddiweddar yn cynnwys llinellau atebolrwydd clir. Erbyn hyn, mae gan uwch arweinwyr gyfrifoldebau pendant sy'n cael eu rhannu'n briodol. Mae arweinwyr canol yn dechrau deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd, yn enwedig o ran dadansoddi data a hunanarfarnu.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd rheolwyr yn canolbwyntio'n briodol ar wella'r addysgu. Fod bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar fonitro a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion. Er bod strwythur addas ar waith bellach ar gyfer rheoli perfformiad staff, nid yw targedau unigol ar gyfer gwella yn canolbwyntio digon ar wella safonau ac addysgu.

Yn gyffredinol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyflawni'u dyletswyddau statudol yn dda ac yn ystyried deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn eu hysbysu'n ddigon da ynglŷn â phwysigrwydd ystyried cyd-destun a chyfansoddiad yr ysgol wrth arfarnu perfformiad yr ysgol. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu dwyn arweinwyr i gyfrif yn effeithiol o ran deilliannau, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

### **Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi amserlennu cyfres o weithgareddau i uwch arweinwyr gasglu gwybodaeth uniongyrchol o wersi a llyfrau. Mae uwch arweinwyr wedi pennu meini prawf clir ar gyfer arfarnu ansawdd yr addysgu a'r marcio. Mae tystiolaeth o fwyafrif yr arsylwadau o wersi yn canolbwyntio'n briodol ar addysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn cynnig arfarniadau clir nac yn nodi meysydd perthnasol i'w gwella. Mewn llawer o'r dogfennau hyn, nid oes digon o ffocws ar gynnydd a wneir gan ddisgyblion. Mae'r wybodaeth o graffu ar lyfrau yn yr adran gynradd yn fanwl ac yn darparu arfarniadau defnyddiol o'r marcio a'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau craffu ar lyfrau yn yr adran uwchradd yn darparu adborth manwl ar safonau, a dim ond gwerthusiadau byr o ansawdd y marcio neu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn ddogfen gryno sy'n ystyried meysydd priodol o waith yr ysgol. Mae'n cynnwys trafodaeth fer am berfformiad yr ysgol mewn asesiadau athrawon ac arholiadau allanol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio ystod gyfan y data sydd ar gael i arfarnu ei pherfformiad. Hefyd, nid ydynt wedi ystyried cyd-destun a chyfansoddiad yr ysgol i wneud asesiadau hunanfeirniadol addas o'u perfformiad dros gyfnod. O ganlyniad, mae eu harfarniad o safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn rhy hael. Mae uwch arweinwyr yn cynnal arolygon helaeth o lais y disgybl a rhieni, ac yn ymateb yn briodol i ganfyddiadau. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o arsylwadau o wersi a chraffu ar lyfrau i nodi cryfderau a gwendidau yn ei darpariaeth mewn modd ffurfiol. O ganlyniad, nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio gwelliant.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau addas ac yn dynodi cyfrifoldebau ar gyfer camau gweithredu amrywiol. Ceir cyswllt priodol gyda llawer o feysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad arfarnu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r rhain yn cysylltu â'r adroddiad hwn, a dim ond ychydig o dargedau ar gyfer gwella y gellir eu mesur. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu addas i sicrhau gwelliant mewn llawer o feysydd, ond nid yw'n cynnwys ychydig o feysydd pwysig i'w gwella, fel gwella perfformiad merched yng nghyfnod allweddol 4 neu wella perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen. Nid oes costau llawn ynghlwm wrth y cynllun.

Mae arweinwyr canol yn datblygu'u rôl mewn sicrhau ansawdd ac yn dechrau deall arwyddocâd data perfformiad. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel arsylwadau o wersi neu graffu ar waith disgyblion. Nid ydynt yn cynhyrchu arfarniadau adrannol, er eu bod yn cynnwys cyflwyniadau byr o ddata yn eu cynlluniau datblygu adrannol. At ei gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys camau gweithredu generig addas ond nid ydynt yn canolbwyntio digon ar wella'r addysgu. Ychydig iawn o gamau gweithredu sydd â chostau ynghlwm wrthynt, ac nid yw meini prawf llwyddo yn cynnwys effaith ar ddeilliannau.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol berthnasoedd gweithio gwerthfawr gydag ystod eang o bartneriaid. Caiff y rhain effaith fuddiol ar les a chyrrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion lleol eraill i ehangu ei darpariaeth cwricwlwm yn y chweched dosbarth, a cheir trefniadau addas ar gyfer sicrhau ansawdd cyrsiau a gynigir mewn partneriaethau.

Mae'r ysgol yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y cyfathrebu o'r ysgol yn gadarn. Mae niferoedd da yn mynychu nosweithiau rhieni, ac mae cymdeithas rhieni ac athrawon weithgar yn gwneud cyfraniad sylweddol at adnoddau addysgol yr ysgol, er enghraifft mur 'bowldro' yn yr adran gynradd a thelesgop ar gyfer arsyllfa'r ysgol. Er bod tua hanner y disgyblion sy'n dod o mewn i Flwyddyn 7 yn dod o ysgolion cynradd y tu allan i ddalgyrch yr ysgol, mae'r ysgol yn cynnal llawer o ddigwyddiadau buddiol i alluogi'r disgyblion hyn i ymgartrefu'n gyflym.

Mae gan yr ysgol lawer o gysylltiadau gyda busnesau a sefydliadau lleol i ehangu profiadau disgyblion o'r gweithle a datblygu'u dealltwriaeth o fasnach. Mae cysylltiadau buddiol gan yr ysgol â cholegau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n helpu athrawon i hybu'u gwybodaeth broffesiynol. Mae ganddi bartneriaethau datblygedig gydag ystod eang o brifysgolion i ehangu uchelgeisiau disgyblion a gwella'u dysgu.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda llawer o grwpiau gwirfoddol yn y gymuned leol. Un cryfder arbennig yw ei phartneriaeth gyda Llu Cyfun y Cadetiaid. Mae hwn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u medrau arwain ac ennill cymwysterau, fel gwobr Dug Caeredin.

Mae gan yr ysgol lawer o gysylltiadau buddiol gyda gwasanaethau arbenigol fel yr heddlu ac asiantaethau cwnsela sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion.

## **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei staff a'i hadnoddau'n briodol, ac yn defnyddio'i hathrawon yn effeithiol i alluogi'r rhan fwyaf i addysgu yn eu maes arbenigedd. Mae ychydig o athrawon yn addysgu gwersi ar draws yr adrannau cynradd ac uwchradd. Yn sgil hyn, cânt gyfleoedd defnyddiol i rannu'u harbenigedd ac ehangu dealltwriaeth o ddisgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 mewn meysydd fel mathemateg, gwyddoniaeth, dawns a cherddoriaeth.

Ers penodi'r uwch dîm arweinyddiaeth presennol, mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi bodloni'r canllawiau statudol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i staff ddatblygu drwy ystod addas o rwydweithiau arfer broffesiynol. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau ar yr addysgu ac asesu. Mae uwch arweinwyr wedi trefnu rhaglen ymsefydlu addas i ddatblygu arweinwyr canol, ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu medrau arwain. Yn gyffredinol, mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen a'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gwariant presennol yr ysgol yn anghynaliadwy. Er bod y rheolwr busnes a chyllid a chadeirydd pwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn fanwl, mae diffyg gan yr ysgol yn ei chyllideb ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, toriadau yn ei chyllideb na chawsant eu rhagweld sydd i gyfrif am hyn. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi gweithi'n agos gyda'r awdurdod lleol i lunio cynllun adfer addas i ddileu'r gorwariant hwn. Mae'r chweched dosbarth yn gost-effeithiol.

Gwneir defnydd priodol gan yr ysgol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth i farnu ei effaith ar y disgyblion hyn yn ddigon clir bob amser.

O ystyried y deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### 6635901 - Ysgol y Santes Ffraid

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	144
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	6.4
Grŵp PYD	1 (FSM<=8%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	12	12	13	12
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	100.0	83.3	84.6	91.7
Chwarter meincnod	1	3	4	3
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	12	12	13	12
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	83.3	84.6	91.7
Chwarter meincnod	1	4	4	3
